



The  
**Ulrike Michal**  
Foundation  
for the Arts



**11.01.2021**

## **Rhaglen Grantiau Newydd *Ulrike Michal Foundation for the Arts***

Byddai ymddiriedolwyr *Ulrike Michal Foundation for the Arts* yn hoffi cyhoeddi agor eu cylch ariannu cyntaf ar gyfer ceisiadau am grantiau.

Mae'r Sefydliad yn gallu cynnig dau fath o grantiau'r tro yma:

- ◆ Tri grant hyd at £500, tri grant rhwng £501 a £1,000 a thri grant rhwng £1,001 a £3,000 am brosiectau celfyddyd sy'n *"hyrwyddo, hybu ac ymestyn caru, gwerthfawrogi, mwynhau, deall ac arfer y celfyddydau cain, addurnol a chymhwysol ymysg pobl o bob oed trwy brofiadau mewn amgueddfeydd, orielau celfyddyd, eiddo hanesyddol ac yn y gymuned yn gyffredinol, fel unigolion ac ar y cyd, fel cyfranogwyr a gwylwyr."*
- ◆ Chwech o grantiau myfyrwyr hyd at £250 yr un i gynorthwyo myfyrwyr sy'n dilyn cyrsiau yn y celfyddydau cain ac addurnol.

Mae Ymddiriedolwyr y Sefydliad yn cadw'r hawl i newid nifer y grantiau gan ddibynnu ar ansawdd y ceisiadau.

Mae rhagor o fanylion ynghylch y rhaglen grantiau a meini prawf cymhwyster i'w cael ar wefan sefydliad



Mae'r Sefydliad yn croesawu ceisiadau am brosiectau fydd yn elwa cymunedau yng Ngogledd Cymru, Glannau Mersi a siroedd Caer, Amwythig a Henffordd ar y gororau.

Dylai ceiswyr y grantiau myfyrwyr fod naill ai'n byw ac yn astudio yn y mannau hynny neu fod yn byw yn yr ardaloedd hynny cyn dechrau eu cwrs celfyddyd.

Y dyddiad cau ar gyfer holl geisiadau am grantiau yw 27<sup>ain</sup> Mawrth 2021.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â: [info@umffta.org](mailto:info@umffta.org)

Gwefan: [www.umffta.org.uk](http://www.umffta.org.uk)